# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd P. M. Black (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | N J Davies | J A Hale |
| J W Jones | E T Kirchner | D J Lewis |
| K E Marsh | G Owens | L V Walton |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Pennaeth Gwybodaeth a Busnes |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jo Harley | Rheolwr Perfformiad Strategol TGCh |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro |

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016 - 2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd N. J. Davies yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

2 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr R A Clay a J P Curtice.

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2016 fel cofnod cywir.

5 **TGCH CYNGHORWYR - MIS MAI 2017 AC WEDI HYNNY.**

Rhoddodd Sarah Caulkin, Prif Swyddog Trawsnewid Dros Dro a Jo Harley, Rheolwr Perfformiad Strategol TGCh, gyflwyniad yn amlinellu darpariaeth TGCh y dyfodol i gynghorwyr o fis Mai 2017.

Fe wnaethant amlinellu'r trefniadau presennol, y Strategaeth Ddigidol i Gynghorwyr, yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, ynghyd â'r materion a oedd wedi'u nodi.

Y camau nesaf fyddai:

- Mynd i holl gyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol i drafod darpariaeth y dyfodol;
- Adrodd yn ôl i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Medi 2016 gyda'r argymhellion;
- Argymhellion i'w hadrodd i'r cyngor ac yna'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2016;
- Cyflwyno a hyfforddiant yn 2017;
- Cyflwyno'r strategaeth ddigidol i'r cynghorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r cyflwyniad.

6 **CYNGHORWYR - HUNANWASANAETH.**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar fwriad yr awdurdod i symud cynghorwyr i becyn Hunanwasanaeth ISIS.

Byddai hunanwasanaeth cynghorwyr yn galluogi cynghorwyr i weld a diwygio manylion a gwneud cais am bethau trwy ISIS. Byddai hyn yn cynnwys:

- Slipiau cyflog, P60 a P11d;
- Newidiadau i fanylion personol (cyfeiriad, banc, etc.);
- Trwyddedau parcio ceir;
- Hawliadau milltiredd a threuliau.

Byddai hyfforddiant yn cael ei roi i'r holl gynghorwyr er mwyn rheoli'r broses newid hon.

Ar ben hynny, argymhellodd yn gryf y dylai'r holl gynghorwyr dan 75 oed ddewis bod yn rhan o'r cynllun pensiwn cynghorwyr.

Cyfeiriodd y cadeirydd at ap Modern.gov a dywedodd ei fod yn defnyddio'r ap hwnnw i ddarllen yr agenda. Dywedodd ei fod wedi bod yn defnyddio'r ap ers llawer o flynyddoedd ac awgrymodd y dylid ei gyflwyno'n eang i gynghorwyr a'r cyhoedd. Gallai ap Modern.gov arwain at lai o argraffu. Hefyd, dywedodd ei fod wedi gofyn i'r Rheolwr Craffu ddefnyddio Modern.gov gan ei bod yn hanfodol iddynt ddefnyddio llwyfan safonol yr awdurdod.

Daeth i gasgliad trwy ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bwysleisio pwysigrwydd defnyddio Modern.gov i'r Rheolwr Craffu a hefyd y dylid cynnig dewis i'r cynghorwyr beidio â chael copi caled o agendâu.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;

2) Y dylid ychwanegu'r paneli craffu ac agweddau eraill ar y broses graffu at system Modern.gov;

3) Y dylai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gysylltu â'r holl gynghorwyr er mwyn eu hannog i ddewis peidio â chael copïau caled o agendâu a chroesawu fformat digidol Modern.gov.

7 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-2017 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 27 Medi 2016 | TGCh Cynghorwyr - mis Mai 2017 a'r tu hwnt |
| 27 Medi 2016 | Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017 |
| 20 Rhagfyr 2016 | Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017 |

Daeth y cyfarfod i ben am 5.37 pm

**CADEIRYDD**